Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adroddiad ar y Gymraeg 2024-25

Medi 2025

# Cefndir

Paratowyd yr adroddiad blynyddol hwn yn unol â Safonau'r Gymraeg 152, 158 a 164, a bydd yn tynnu sylw at sut y mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru wedi cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a osodwyd arnynt gan Gomisiynydd y Gymraeg, a nodwyd yn yr Hysbysiadau Cydymffurfio priodol.

- Hysbysiad Cydymffurfio Archwilydd Cyffredinol Cymru
- Hysbysiad Cydymffurfio Archwilio Cymru

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol. Yn ogystal ag amlinellu cydymffurfiad cyffredinol, mae'r adroddiad hwn hefyd yn cynnwys y wybodaeth benodol y mae'r Safonau yn gofyn amdani i'w chyhoeddi yn flynyddol.

Mae hyn yn cynnwys data ar nifer y cwynion a dderbyniom, lefelau Cymraeg ein staff, yr hyfforddiant a gynigiwn drwy gyfrwng y Gymraeg, a lefel y Gymraeg sydd ei hangen arnom ar yr holl swyddi gwag a newydd rydym wedi'u hysbysebu yn ystod y flwyddyn ariannol.

Mewn achos o dderbyn cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r cod adran 45 yn nodi'r arfer wrth ymdrin â cheisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol.

O ran y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

# Cynnwys

| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 4 |
| Llywodraethu | 5 |
| Diwylliant | 6 |
| Cyflawni | 7 |
| Casgliad | 11 |

# Cyflwyniad

1 Mae'r adroddiad blynyddol hwn ar y Gymraeg yn amlinellu'r gwaith a wnaed i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a hyrwyddo'r iaith o fewn Archwilio Cymru yn ystod 2024-25.

2 Er mai prif swyddogaeth yr adroddiad hwn yw asesu cydymffurfiaeth, mae'n rhoi cyfle i adolygu cyflawniad ein Strategaeth Gymraeg a'i chonglfeini strategol sef llywodraethu, diwylliant a chyflawni.

3 Mae Strategaeth y Gymraeg yn ei hail flwyddyn lawn. Ei phwrpas yw llywio dull y sefydliad yn seiliedig ar dair gonglfaen graidd - llywodraethu, diwylliant a chyflawni. Mae'n cael ei hategu gan ein dyletswyddau fel y'u nodir ym Mesur y Gymraeg 2011.

4 Er nad oes gofyniad statudol i Archwilio Cymru fod â Strategaeth y Gymraeg, cydnabyddir bod hynny’n arfer da ac yn cefnogi ein hamcan o fod yn sefydliad enghreifftiol ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru.

# Llywodraethu

5 Ein huchelgais yw datblygu model llywodraethu cadarn, wedi'i ategu gan ein defnydd o ddata a dangosyddion perfformiad allweddol i fonitro cynnydd y strategaeth, nodi meysydd i'w gwella a darparu sicrwydd rheolaidd i'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol, y Bwrdd a Chomisiynydd y Gymraeg.

## Gweithgareddau yn ystod 2024-25

6 Diweddarodd Grŵp Strategaeth y Gymraeg ei gylch gwaith a pharhaodd i gyfarfod bob chwarter. Adnewyddwyd aelodaeth y grŵp i gynnwys cydweithwyr o archwilio perfformiad ac ariannol, yn ogystal â thimau corfforaethol. Mae'n cael ei gadeirio gan Gyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu a Newid.

7 Cyflwynwyd yr adroddiad ar ein holiadur hunanasesu i Gomisiynydd y Gymraeg ym mis Chwefror a ymatebodd yn gadarnhaol i'r manylion a ddarparwyd, gan gynnwys ein lefelau cydymffurfio a'n trefniadau monitro mewnol.

8 Cynhaliwyd asesiadau effaith ar gyfer prosiectau allweddol i sicrhau cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg, gan gynnwys y polisi disgyblu newydd, cyflwyno LinkedIn Learning, a symudiadau swyddfa.

9 Diweddarwyd canllawiau ac ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn y Llawlyfr Cyflawni Archwiliad Perfformiad gyda sylw penodol ar ein darpariaeth cyfrwng Cymraeg i'n cyhoedd, cleientiaid, rhanddeiliaid a staff.

10 Adnewyddwyd polisi **Defnyddio'r Gymraeg yn Fewnol**, gan roi canllawiau clir i staff ar sut y dylent fod yn defnyddio'r iaith yn y gweithle. Mae'r polisi hwn ac adnoddau eraill ar yr Hwb mewn rhan Gymraeg benodol.

# Diwylliant

11 Ein huchelgais yw datblygu diwylliant lle mae pobl yn falch o’n statws fel corff archwilio cenedlaethol Cymru. Mae hyn yn cynnwys gweithgareddau i hyrwyddo ymwybyddiaeth o hanes a diwylliant y Gymraeg, ein rhwymedigaethau statudol a chydnabod ei phwysigrwydd i gydweithwyr, cyrff archwilio a rhanddeiliaid.

## Gweithgareddau yn ystod 2024-25

12 Yn y gynhadledd staff ym mis Mawrth 2025 fe wnaethom gyflwyno gweithdy mewn partneriaeth â Dysgu Cymraeg Caerdydd gan dynnu sylw at y gwahanol ddulliau o ddysgu Cymraeg sydd ar gael i staff a'r cymorth sydd ar gael drwy wahanol rwydweithiau a sefydliadau trydydd parti i ymarfer. Daeth llawer o’r staff i’r gweithdy ac roedd yr adborth yn gadarnhaol.

13 Fe wnaethom gyflwyno ein hyfforddiant Ymwybyddiaeth o’r Gymraeg newydd a lansiwyd gyda fideo a chwis wedi'i gynllunio'n fewnol ar gyfer yr holl staff. Mae'r fideo yn ymdrin â hanes a diwylliant yr iaith yng Nghymru, gan dynnu sylw at ein rhwymedigaethau statudol. Roedd y lansiad yn cynnwys cyflwyniadau personol, presenoldeb mewn cyfarfodydd clwstwr a thîm, cyfathrebu ar yr Hwb ac yn y gynhadledd staff.

14 Gwnaethom hyrwyddo a chefnogi digwyddiadau cenedlaethol sy'n hyrwyddo'r Gymraeg, yn fewnol ac yn allanol. Mae hyn yn cynnwys Diwrnod Shw'mae, ymgyrch Defnyddia dy Gymraeg Comisiynydd y Gymraeg a digwyddiadau diwylliannol fel Dydd Miwsig Cymru a'r Eisteddfod Genedlaethol.

15 Rydym yn cynyddu defnydd ac amlygrwydd yr iaith trwy ein sianeli cyfathrebu mewnol. Mae pob bwletin staff er enghraifft briff y Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol a Pobl i gyd yn ddwyieithog. Ar yr Hwb, mae'r holl ddisgrifiadau swydd, cyhoeddiadau allweddol a pholisïau ar gael yn ddwyieithog.

# Cyflawni

16 Trwy gyflawni, rydym yn edrych ar ba mor effeithiol rydym yn diwallu anghenion Cymraeg cyrff a archwilir a rhanddeiliaid eraill ac yn cydymffurfio â'n safonau.

## Gweithgareddau yn ystod 2024-25

17 Recriwtio yw'r arf allweddol i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn Archwilio Cymru. Mae ein hymgyrchoedd recriwtio prentisiaid a graddedigion yn cynnwys ymrwymiad i recriwtio o leiaf 20% o swyddi lle mae’r Gymraeg hanfodol.

18 Gyda phob ymgyrch recriwtio arall, sy'n recriwtio ar gyfer tair swydd neu fwy, bydd targed o 20% o leiaf o swyddi lle mae’r Gymraeg hanfodol. Mae'r Gymraeg yn rhan o'r ystod ehangach o sgiliau hanfodol y mae penderfyniadau recriwtio yn seiliedig arnynt. Mae rolau newydd yn cael eu hasesu yn erbyn matrics i bennu sgiliau Cymraeg, wrth gydnabod y farchnad heriol a'r galw am sgiliau.

19 Yn ystod 2024/25 fe wnaethom recriwtio 63 o swyddi lle penodwyd 7 siaradwr Cymraeg iddynt.

| | Cyfanswm Nifer a Recriwtiwyd | Nifer y siaradwyr Cymraeg |
|---|---|---|
| Corfforaethol | 5 | 0 |
| Archwilio Ariannol | 17 | 0 |
| Archwilio Perfformiad | 9 | 3 |
| Graddedigion | 22 | 3 |
| Prentisiaid | 7 | 0 |
| Cyfathrebu a Newid | 3 | 1 |

20 Rydym yn adolygu ein gweithgarwch allgymorth i dargedu mwy o siaradwyr Cymraeg. Yn 2026, byddwn yn mynychu Eisteddfod yr Urdd i godi ymwybyddiaeth o'n cynlluniau ar gyfer graddedigion a phrentisiaethau. Mae hyn eisoes yn cynnwys presenoldeb mewn ffeiriau gyrfaoedd a digwyddiadau prifysgol.

21 Mae meithrin sgiliau Cymraeg ein staff yn fesur allweddol arall ar gyfer datblygu diwylliant Cymraeg gref yn y gweithle. Mae sgiliau Cymraeg yn cael eu hunanwerthuso a'u cofnodi ar y porth Hunanwasanaeth Gweithwyr. Anogir staff i ddiweddaru a chofnodi eu sgiliau yn erbyn y Matrics Sgiliau Cymraeg, sydd â lefelau sy'n disgrifio'r hyn y gall unigolyn ei gyflawni o ran siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg.

22 Mae'r lefelau'n amrywio o Ymwybyddiaeth lle bydd rhywun yn gallu adnabod rhai geiriau byr, syml ond yn dal i fod ag ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gref o weithio mewn amgylchedd dwyieithog i Uwch a Hyfedr, lle mae lefelau cryf o ruglder lle mae staff yn hyderus yn defnyddio eu sgiliau Cymraeg yn eu gwaith.

23 Canran y staff sydd wedi datgan bod eu sgiliau Cymraeg naill ai'n uwch neu'n hyfedr yw 17%, sy'n parhau i fod yn gyson i raddau helaeth â'r ddwy flynedd ddiwethaf.

## Sgiliau Cymraeg staff Archwilio Cymru

| | Gwrando | Darllen | Siarad | Ysgrifennu |
|---|---|---|---|---|
| Ymwybyddiaeth | 108 | 110 | 112 | 111 |
| Mynediad | 15 | 14 | 15 | 14 |
| Sylfaen | 9 | 6 | 3 | 5 |
| Canolradd | 7 | 8 | 11 | 10 |
| Uwch | 8 | 12 | 2 | 6 |
| Hyfedr | 19 | 16 | 21 | 20 |

**Sgiliau Cymraeg staff o fewn gwasanaethau archwilio**

| | Gwrando | Darllen | Siarad | Ysgrifennu |
|---|---|---|---|---|
| Ymwybyddiaeth | 92 | 93 | 92 | 92 |
| Mynediad | 8 | 7 | 68 | 7 |
| Sylfaen | 4 | 2 | 2 | 3 |
| Canolradd | 5 | 5 | 7 | 6 |
| Uwch | 5 | 9 | 2 | 5 |
| Hyfedr | 14 | 11 | 16 | 15 |

**Sgiliau Cymraeg staff o fewn gwasanaethau corfforaethol / cyfathrebu a newid**

| | Gwrando | Darllen | Siarad | Ysgrifennu |
|---|---|---|---|---|
| Ymwybyddiaeth | 20 | 20 | 20 | 20 |
| Mynediad | 3 | 3 | 3 | 6 |
| Sylfaen | 3 | 2 | 1 | 2 |
| Canolradd | 0 | 2 | 2 | 2 |
| Uwch | 1 | 0 | 1 | 0 |
| Hyfedr | 5 | 5 | 5 | 5 |

## Hyfforddiant sgiliau Cymraeg

24 Yn ystod 2024-25, cymerodd staff ran yn y cyrsiau fel y dangosir yn y tabl isod:

| Cwrs | Cwblhau |
|---|---|
| Cyrsiau Gwaith Cymraeg 'Croeso' Ar-lein Rhan 1 | 17 |
| Cyrsiau Gwaith Cymraeg 'Croeso' Ar-lein Rhan 2 | 17 |

25 Yn ystod y flwyddyn, derbyniwyd un gŵyn ynglŷn â'r Gymraeg yn ymwneud â dwy neges a anfonwyd yn Saesneg yn unig. Nododd Comisiynydd y Gymraeg, yn dilyn ymchwiliad mewnol, ein bod wedi ymdrin â'r mater yn briodol.

26 Trwy ein tîm cyhoeddi, cyfieithwyd cannoedd o ddarnau o waith a dros filiwn o eiriau yn ystod 2024-25. Mae ein defnydd o feddalwedd cyfieithu deallus (Phrase) wedi darparu arbedion ariannol ac o ran prosesau yn ein gweithgarwch cyfieithu.

27 Lle bo'n bosibl gyda darparwyr allanol, rydym yn cynnig cyfle i staff gael hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn 2024-25, darparwyd hyfforddiant Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a'r Cyfryngau yn ddwyieithog. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddod o hyd i ddarparwyr hyfforddiant dwyieithog priodol.

## Camau nesaf

Yn ogystal ag ategu’r gweithgareddau uchod, bydd pwyslais ar y canlynol ar gyfer 2025-26:

- Ymgysylltu â grŵp strategaeth cynllunio'r gweithlu i edrych ar anghenion sgiliau, dulliau o recriwtio a rolau lle mae’r Gymraeg yn hanfodol.
- Gwaith allgymorth ehangach mewn digwyddiadau fel Eisteddfod yr Urdd i hyrwyddo gyrfaoedd gydag Archwilio Cymru, gan ganolbwyntio ar raddedigion a phrentisiaethau.
- Ail-lansio rhwydwaith staff (Grŵp Cymraeg) i gefnogi dysgu a datblygu sgiliau yn y gweithle drwy rwydwaith hyrwyddwyr.
- Arolwg mewnol i asesu ymwybyddiaeth effeithiol o hyfforddiant yn y Gymraeg.

# Casgliad

28 Prif bwyslais ein gweithgarwch Cymraeg yw sicrhau bod y sefydliad yn cydymffurfio â safonau sy'n hanfodol i'n henw da a'n defnydd effeithiol o adnoddau.

29 Fel y nodwyd yn ein hymgysylltiad â Chomisiynydd y Gymraeg, mae hyder yn ein trefniadau monitro. Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi gweld cynnydd mewn gweithgarwch ynghylch ymwybyddiaeth o ddiwylliant ac iaith a bydd hyn yn parhau yn 2025-26.

# Amdanom ni

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflawni ei waith â chymorth staff ac adnoddau eraill gan Swyddfa Archwilio Cymru, sef corff a sefydlwyd i gefnogi, cynghori a monitro gwaith yr Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw term ambarél Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r rhain yn endidau cyfreithiol ar wahân ac mae ganddynt swyddogaethau gwahanol a amlinellir uchod. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol.

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn annibynnol o Lywodraeth Cymru a'r Senedd. Swyddogaeth yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilio ac adrodd cyfrifon Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig eraill, ynghyd â chyfrifon cynghorau a chyrff llywodraeth leol eraill. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd defnydd y sefydliadau hyn o adnoddau ac yn awgrymu ffyrdd y gallent wella.

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.audit.wales/cy

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.